# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc<br>*Clerk*<br>**Caroline Jones**<br>01248 602131<br>CyngorLlanllechid@ogwen.org | 26 Stryd Fawr<br>Bethesda<br>Gwynedd<br>LL57 3AE |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Festri Capel Bethlehem, Talybont ar nos Iau y 10fed o Hydref am 1900yh.**

**1. PRESENNOL**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Wyn Bowen-Harris
Y Cynghorydd Lowri Evans
Y Cynghorydd Robin Williams
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Rhydian Williams
Y Cynghorydd Alun Thomas

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Kevin Williams
Y Cynghorydd Dafydd K Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Y Cadeirydd, Y Cyng. Lowri Evans.

**2. Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Jên Morris

Absennol – Y Cynghorydd Geraint Hughes

**3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 12fed o Fedi 2024.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1 Arwyddion Maes y Groes –** Adroddwyd Y Cynghorydd Dafydd Meurig fod aelod o staff Cyngor Gwynedd yn gyflogedig i edrych ar enwau lleoedd. Drwy hyn mae'r Cyngor wedi cytuno i osod yr arwyddion. Dim diweddariad.

**4.2 Arwyddion Cyflymder Maes y Groes –** Mr Andrew Gregson wedi bod mewn cysylltiad gyda Y Cyng Evan Jones i drafod y posibilrwydd o 'chevrons' ar y lôn. Derbynwyd diweddariad gan Mr Gregson, mae'r cynllun wedi mynd i'r Gweithle a gallwn ddisgwyl i'r darpariaeth fod yn ei le yn y 4-6 wythnos canlynol.

**4.3 Bin Halen Bryn Derwas –** Cafwyd trafodaedd gyda Mr Ian Morgan mewn perthynas â phrynnu bin halen. Ian Morgan am yrru dyfynbris. Penderfynwyd os yw'r prîs yn rhesymol, Y Clerc i drefnu gosod y bin.

**4.4 Safle bws Talybont -** Yr arlunydd Elen Williams wedi cychwyn y darlun. Trefnwyd i orffen y darlun ar ddydd Sadwrn 19fed o Hydref gyda plant lleol.

**4.5 Dwr yn llifo Chwarel y Bryn –** Gwaith wedi cwblhau

**4.6 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen a Ty'n Hendre –** Cyfarfu Eilir Morgan, Cyngor Gwynedd a'r Cyng Kevin Williams yn y safle. Mae'r gwaith ar raglen gwaith Cyngor Gwynedd. Mr Ian Morgan yn cadarnhau hyn 12-9-24.

**4.7 Dwr ar y ffordd Coed Uchaf, Lôn Goed -** Gwaith wedi cwblhau

**4.8 Diffyg biniau ar lwybr beicio Wîg a diffyg bin yn y Gilfan gyferbyn ar yr A55 –** Y Clerc wedi bod mewn cysylltiad gyda Mr Peter Simpson, Rheolwr Gwasanaethau Stryd. Y sefyllfa bresenol yw nad yw'n glir pwy sydd gyda cyfrifoldeb dros y llwybr beicio a'r man tynnu mewn. Y Cyng. Dafydd Meurig am gysylltu gyda Mr Simpson am ddiweddariad. Dim diweddariad.

Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Môn i holi pwy sy'n gyfrifol am y biniau yn eu cilfannau.

**4.9 Tai i bobl lleol –** Llythyr wedi ei hanfon at Mr Gibbard a'r Cynghorydd Siencyn yn codi pryderon sydd gan Cyngor Cymuned Llanllechid am dai fforddiadwy yn Nyffryn Ogwen. Derbynwyd ymateb. Y Clerc wedi gyrru yr ymateb ymlaen i Gynghorau Cymuned Bethesda a Llandygai am ei sylwadau.

Awgrymwyd Y Cyng. Robin Williams fod angen creu Is-Bwyllgor rhwng y tri Cyngor Cymuned i drafod materion cynllunio y bro gan gynnwys y cynllun datblygol lleol. Y bwriad fydd gwahodd cynrychiolydd o'r adran Cynllunio, Cyngor Gwynedd i un o'r cyfarfodydd.
Y Clerc i ysgrifennu at Cynghorau Cymuned Bethesda a Llandygai yn gofyn os oedd diddordeb.

**4.10 Ffens bren ger pont Allt Ty'n Hendre –** Ffens wedi pydru. cafodd y mater yma ei drosglwyddo i sylw ei'n swyddogion strwythurau ar y pryd oherwydd y gylfat gyfagos. Mae'r rel uchaf i weld wedi ei ddifrodi oherwydd bod garreg coping wedi disgyn arno, ond nid yw'n cyflwyno perygl i ddefnyddwyr y ffordd yn ei gyflwr presennol. Mi wneith yr arolygwr codi archeb i adnewyddu'r ffens unai drwy osod coed newydd neu ail-osod y coed presennol, ac ail-osod y garreg coping yr un pryd. Mr Ian Morgan yn cadarnhau hyn 12-9-24.

Adroddwyd fod y ffens wedi cael ei atgyweirio dros dro. Y Clerc i ddilyn i fyny pryd caiff y gwaith ei orffen.

**4.11 Cae Rhosydd** - Ffigyrau demograffeg y stad wedi ei derbyn gan ADRA. Y Clerc i yrru ymlaen i CC Bethesda a Llandygai am ei sylwadau.

**4.12 Lon Wig -** Adroddwyd fod terfyn cyflymder y llwybr yn 60mya, gyda cerddwyr, beicwyr a cerbydau ar yr un llwybr.
Y Clerc wedi derbyn ymateb gan yr Is-adran y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol
'Mae swyddogion Llywodraeth Cymru dal yn ystyried y mater hwn ar hyn o bryd a byddwn yn ymateb i chi cyn gynted â phosibl.' Dim diweddariad.

**4.13 Tai Fforddadwy Botwnnog -** Adroddwyd fod erthygl yn rhifyn mis Mai o 'Llanw Llŷn.' Nodwyd gwrthwynebiad cryf at ddatblygiad Cae Capel. Llythyr yn tynnu sylw Cyngor Cymuned Botwnnog at achos Cae Rhosydd wedi ei yrru. Derbynnwyd ymated gan Y Cyng. Gareth Williams, yn gofyn a fydda ni'n hapus iddo rannu ein llythyr gyda'r Swyddog Cynllunio yn Cyngor Gwynedd sy'n edrych ar y cais. Cytynwyd. Dim diweddariad. Cytynwyd i **dynnu** oddi ar y cofnodion.

**4.14 Mynwent Llanllechid** – Derbynwyd dyfynbris gan DE Williams. Y Clerc i dderbyn y dyfynbris.

**4.15 Torri gwair Bro Emrys** –Pendefynwyd dderbyn dyfynbris Adam Roberts. Bydd angen i Adam yrru manylion yswiriant at Y Clerc. Dim diweddariad.

**5. Adroddiad Cyngor Sir, Y Cyng Dafydd Meurig.**

Dim adroddiad.

**6. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol;

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd | Archwiliad Mewnol 2023-2024 | £402.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth Clercio o Datblygu Cymunedol Hydref 2024 - Mawrth 2025 | £5,035.21 |

Cyfrif Mynydd

| | | |
|---|---|---|
| Partneriaeth Ogwen | Stamps | £12.75 |

**7. Y Mynydd**

Arwyddwyd gan y Cadeirydd ___________________________________

PCSO Rhys Evans o adran Troseddau Gwledig yr Heddlu yn awyddus i ymuno ac un cyfarfod. Y Clerc i'w gwahodd i gyfarfod nesaf.

Derbynwyd ymatebion i lythyr ac yrrwyd i borwyr y mynydd yn awgrymu newid yn y rheolau mynydd i gynnwys cymal ar gyfer ffermwyr ifanc. Y llythyr hefyd yn cynnwys yr awgrymiad o greu 'Cymdeithas Porwyr'. Y Clerc i gysylltu gyda Abbie i fwrw ymlaen gyda'r prosiect.
Mabwysiadwyd y rheol newydd arfaethedig mewn egwyddor. Y Cyng Wyn Bowen Harries i ddiwygio'r rheolau ar gyfer cytundeb terfynol.
Giât newydd Bryn hall wedi ei orffen. Giatiau Bryn hall, Rachub a Ciltwllan wedi ei gloi. Aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio y giât mochyn.
Penderfynwyd hysbysebu am Fugail mynydd cychwyn 2025.

**8. Cae Peldroed/Cae Chwarae Talybont**

**8.1 Contractwyr** - Cafwyd rhai dyfynbrisiau gan contractwyr am y gwaith. Yn aros am ddyfyniadau pellach. Y Cyng Evan Jones wedi trefnu cyfarfod *GLP fencing and Groundworks* yn y safle, nid oeddent yno ac ni roddodd unrhyw rybudd o hyn.
Y Cyng Evan Jones wedi hefyd bod mewn cysylltiad gyda cwmni o Flaenau Ffestiniog am amcan bris. Disgwyl diweddariad.

**8.2 Parcio** –Cyngor Gwynedd yn drafftio cynllun o'r maes parcio.

**8.3 Torri Gwair Cae Peldroed –** Diolch i'r Cyng. Rhydian Williams am drefnu amserlen. Y drefn yn gweithio'n dda. Nifer o blant lleol wedi bod yn defnyddio y cae gan gynnwys tim peldroed merched lleol.
Y Cyng Kevin Williams i drefnu gwasanaethu'r peiriant torri gwair yn y Gwanwyn cyn y toriad cyntaf.

**8.4 Asesiad Risg –** Diffoddwr tân ac eitemau cymorth cyntaf wedi ei phrynnu i container y mower. Y Cyng Evan Jones am ei gosod yn y container.

Crynodeb llawn o ddatblygiadau y prosiect yn gohebiaeth Mis Tachwedd.

**9. Llyfrgell Cymunedol/ Community library**

Cafwyd dadansoddiad mwy manwl gan Y Cyng Dafydd Meurig am y biliau trydan a derbynwyd. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda Partneriaeth Ogwen ynglyn ac unrhyw incwm gan Co -Wheels.

**10. Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Hydref 2024'

- Etholiadau Gwynedd, Adolygiad Dosbarthiadau a Mannau Pleidleisio. – Y Clerc i adrodd fod y Festri mewn lleoliad da ond bod yr adeilad yn anaddas i'r anabl.

- Breedon Group, Commons Act 2006 - Section 16 - Mynydd Llandegai Common. Y Clerc i ymateb i'r ohebiaeth, gan amlygu'r pryder am golli tir comin.

- Pennaeth Cydsynio Cenedlaethol, Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 - Cyhoeddi papur ymgynghori – I'w gwblhau yn unigol

- Cyngor Gwynedd, Y Galw am Safleoedd – Ymestyn y Dyddiad Cau – Gweler eitem 4.9

- Un Llais Cymru, Ymgynghoriad: Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26 - I'w gwblhau yn unigol

**11. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

Dim.

**12. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C21/0078/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0099/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C23/0382/21/DT**
Fferm Tyddyn Isaf, Tal Y Bont, Bangor
Dymchwel adeilad allanol ar ochr yr adeilad (adfail) a chodi estyniad newydd ar yr ochr a lolfa haul ar cefn ty annedd.
**Penderfyniad** Ar y gweill

**C24/0452/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
**Pendderfyniad** Ar y gweill
Hoffai'r Cynghorwyr wrthod cefnogi'r cais hyd nes bod cynlluniau mewn lle i ailblannu coed.

**NP3/21/T78**

Hen Ysgubor, Ty'n-y-Maes, Nant Ffrancon
Amrywio Amodau 2 (Cynlluniau a gymeradwywyd) ac 8 (Maint y cerbydau danfon) ynghlwm wrth Ganiatâd Cynllunio NP3/21/T78
**Penderfyniad** Ar y gweill

**Ceisiadau Newydd**

Dim

**13. Materion Brys/Eraill**

- Adroddwyd Y Cyng Lowri Evans fod rhan o lwybr cyhoeddus hebio Ceunant angen ei thorri. Y Clerc i drefnu.
- Codwyd pryder gan Y Cyng. Rhydian Williams fod llwybr cyhoeddus o Maes y Groes yn rhedeg i lawr at yr A55. Y Clerc i wneud ymholidadau os yw'r llwybrau hyn wedi ei gau/ dargyfeirio.
- Derbynwyd gohebiaeth gan bwyllgor Carnifal Bethesda yn gwneud cais am rhodd yn flynyddol i'r digwyddiad – Y Cynghorwyr yn hapus i drafod swm pan yn penu y Preasept ym Mis Ionawr. Y Clerc i ymateb i'r gohebiaeth.

**15. Adroddiad Llais Ogwan**

Cynhalwyd cyfarfod Mis Hydref ar Nos Iau 10fed o Hydref, yn Festri Capel Bethlehem, Talybont. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Y Cynghorydd Lowri Evans.

Rydym yn falch o ddeud fod y murlun yn safle bws Talybont wedi ei orffen. Diolch i Gronfa Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd ac i Dragon's back race am ei rhodd. Diolch hefyd i Elen Williams am ei gwaith creadigol yn creu y murlun.

Adroddwyd fod Partneriaeth y Carneddau wedi gorffen y giat mynydd traddodiadol at mynydd Bryn Hall. Mae'r giat wedi ei gynllunio i weddu gyda'r amgylchedd o'i cwmpas.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi gwneud trefniadau i dorri'r gor dyfiant yn ochrau gwaelod mynwent Llanllechid.